# Polisi Datganiadau a Gwrthdaro Buddiannau

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhif y Polisi. | P2223-551 | Cyfnod Adolygu: | Blynyddol |
| Dyddiad dod i rym: | Chwefror 2023 | Dyddiad yr Adolygiad: | Gorffennaf 2024 |
| Diwygiwyd diwethaf: | Chwefror 2023 | Corff Cymeradwyo: | Yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth |
| Perchennog y Polisi: | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | | |
| Awdur y Polisi: | Pennaeth Cydymffurfiaeth, Polisi a Llywodraethu AD | | |

## Diben

Mae'r Polisi Datganiadau a Gwrthdaro Buddiannau a'r weithdrefn sy'n cyd-fynd ag ef yn darparu fframwaith i'w gwneud hi'n ofynnol i bob unigolyn cymwys sy'n gweithredu ar ran y Brifysgol ddatgan buddiannau, boed yn wirioneddol neu'n bosibl, er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau rhwng eu rôl yn y Brifysgol ac unrhyw weithgareddau'r tu allan i'w swydd yn y Brifysgol, ac yn darparu proses ar gyfer ystyried, datrys a/neu liniaru gwrthdaro posibl.

## Cwmpas

Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i bob unigolyn sy'n gweithredu ar ran y Brifysgol, megis aelodau staff (gan gynnwys penodiadau er anrhydedd a phenodiadau gwadd), aelodau'r Cyngor ac Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiynau Prifysgol Abertawe, gan gynnwys darpar aelodau staff, yn ystod y broses recriwtio.

Mae swyddi sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr, gan gynnwys Cynorthwywyr Addysgu, Myfyrwyr Arddangos a Myfyrwyr Llysgennad wedi'u heithrio rhag cwmpas y polisi hwn. Mae rhestr lawn o'r rolau sydd wedi'u heithrio wedi'i chynnwys yn y Weithdrefn a'r Canllawiau cysylltiedig.

## Egwyddorion Allweddol

Yr holl unigolion cymwys sy'n gweithredu ar ran y Brifysgol:

- Rhaid iddynt weithredu a gwneud penderfyniadau mewn modd diduedd, teg ac ar sail teilyngdod, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau a heb wahaniaethu na rhagfarn.
- Dylid gweithredu a gwneud penderfyniadau mewn modd agored a thryloyw. Ni ddylid gwrthod datgelu gwybodaeth oni bai bod rhesymau clir a chyfreithlon dros wneud hynny.
- Dylid gweithredu er budd gorau'r Brifysgol yn unig.
- Rhaid iddynt osgoi rhoi eu hunain dan rwymedigaeth i bobl neu sefydliadau a allai geisio dylanwadu arnynt wrth eu gwaith mewn modd amhriodol.
- Rhaid peidio â gweithredu na gwneud penderfyniadau er mwyn cael buddion ariannol neu faterol eraill iddyn nhw eu hunain, eu teulu, na'u ffrindiau. Rhaid datgan a mynd i'r afael â buddiannau neu berthnasoedd posibl, cyn eu dechrau.
- Maent yn atebol i'r Brifysgol am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd ac mae'n rhaid iddynt gytuno i fod yn rhan o'r broses graffu sy'n angenrheidiol i sicrhau hyn.

Mae'n ofynnol i bob unigolyn cymwys sy'n gweithredu ar ran y Brifysgol ddatgan buddiannau, boed yn wirioneddol neu'n bosibl, er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau a diogelu'r Brifysgol.  Mae'r Polisi hwn yn gofyn am broses tri cham:

- Datgelu - Rhaid i bob unigolyn cymwys sy'n gweithredu ar ran y Brifysgol ddatgelu ar unwaith fuddiannau gwirioneddol neu bosibl wrth iddynt godi er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau canfyddedig neu bosibl.

- Ystyriaeth lawn o fuddiannau datganedig gydag unrhyw ddatganiad gan y Swyddog Awdurdodi perthnasol, fel y'i diffinnir yn y weithdrefn, a
- Lle bo'n bosibl, cytuno ar gamau i reoli/liniaru gwrthdaro buddiannau a nodwyd.

## Rhestr Wirio Datblygu Polisi

Rwy'n cadarnhau bod y polisi uchod:

| | |
|---|---|
| Yn cydymffurfio â'r gyfraith | ☒ |
| Yn cyd-fynd â strategaeth bresennol y Brifysgol | ☒ |
| Wedi cael Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a gymeradwywyd:<br>• Nid yw'n effeithio'n niweidiol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r iaith Gymraeg<br>• Nid yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg | ☒ |